CCWLSIR IIC 02
Senedd Cymru | Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Effaith costau cynyddol| Impact of increasing costs
Ymateb gan Cyngor Celfyddydau Cymru | Response from Arts Council of Wales

***Pa effeithiau a gafodd costau byw cynyddol ar eich sefydliad a'ch sector hyd yn hyn?***
Mae'r effaith costau cynyddol ynni, cynhyrchu, gwasanaethau, deunyddiau arbenigol a chwyddiant ar ein sefydliadau celfyddydol yn gwaethygu'r anawsterau yn sgil Brexit a'r newidiadau yn sgil y pandemig o ran pobl yn mynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau. Mae artistiaid a gweithwyr creadigol llawrydd naill ai'n gorfod cynyddu eu ffioedd neu'n symud i swyddi diogelach mewn sectorau eraill.

**Ar sail y dystiolaeth a gawsom hyd yn hyn gan nifer mawr o'n sefydliadau,** rhagwelwn gynnydd mewn costau trydan sy'n amrywio o 200% hyd 300% a rhai nwy hyd at 600%.

Mae'r costau o greu cynyrchiadau yn y theatr a sectorau eraill yn 20-40% yn fwy na blwyddyn yn ôl. Mae'r elw a ddaw o arlwyo (sy'n aml yn ariannu llawer o waith arall ein theatrau a'n lleoliadau) yn cael ei daro gan gostau cynyddol bwyd a diod a'r anhawster o drosglwyddo'r costau yma i gwsmeriaid. Mae costau adeiladu hefyd yn codi'n aruthrol. Mae'n anodd i leoliadau sydd eto i agor neu ailagor ragweld gydag unrhyw sicrwydd eu costau ynni a gweithredu yn y dyfodol.

Mae cynulleidfaoedd presennol yn 60%-80% o'u cymharu â chyn y pandemig. Mae pobl yn prynu tocynnau funud olaf ac mae mwy a mwy o bobl yn osgoi talu'n llawn a manteisio ar ostyngiadau. Mae ein sefydliadau a'n lleoliadau celfyddydol cymunedol yn sôn am anghenion sylfaenol eu cyfranogwyr a'u defnyddwyr (bwyd a llety) a'r effaith a gaiff hyn ar sut y darparant eu gweithgareddau a'u gwasanaethau i gymunedau difreintiedig. Hefyd mae'r gost gynyddol o fyw yn y wlad yn gwaethygu'r effaith ar y celfyddydau yn ein cymunedau gwledig.

Mae cwmnïau teithiol yn wynebu costau cynyddol o ran tanwydd a lletya pobl. Chwiliant am warantau neu ffioedd sefydlog gan theatrau a lleoliadau. Mae costau cynyddol a chymhlethdod teithio rhyngwladol a'r cwymp cysylltiedig yn y galw am ein cwmnïau teithiol i fynd dramor hefyd yn gadael eu hôl.

Mae pob un o'r sefydliadau y siaradom â nhw'n parhau i fod yn ymrwymedig i dalu cyflog teg i staff, artistiaid a gweithwyr llawrydd ond ychwanega hyn gynnydd ddau ddigid i'w bil cyflogau.

Mae tair effaith ar Gyngor Celfyddydau Cymru - sut i ymateb i argyfwng y sector; adeiladu ar fuddsoddiad y Cyngor a Llywodraeth Cymru; a chefnogi gwytnwch a lles ein staff.

***Pa effeithiau a gaiff costau cynyddol ar eich sefydliad a'ch sector? I ba raddau y bydd yr effeithiau yma'n ddi-droi'n-ôl (megis lleoliadau'n cau, yn hytrach na chyfyngu dros dro ar eu gweithgarwch)?***
Nid oes gan lawer o'n sefydliadau'r incwm a enillir i amsugno colledion pellach o refeniw na rheoli costau cynyddol. Hefyd mae'r arian sydd ganddynt wrth gefn yn fach iawn. Hyd yn oed mewn amseroedd bras mae sawl un ohonynt yn byw ar y dibyn.

Mae effaith prisiau cynyddol yn drwm ar holl ffrydiau incwm i'r celfyddydau o goffrau arian cyhoeddus, arian a godir, gwerthu tocynnau ac ennill incwm.

Yn ddiau bydd cwmnïau a lleoliadau celfyddydol annibynnol yn wynebu cau heb ragor o gefnogaeth ariannol os yw'r economi, yn ôl y rhagolygon, yn wynebu cyfnod hir o ddirwasgiad. Gallai'r rhai a gynhelir gan yr awdurdodau lleol neu'r prifysgolion oroesi ond gyda newidiadau pellgyrhaeddol.

Yn y tymor byr, clywn am sefydliadau'n bwriadu codi prisiau; lleihau perfformiadau, arddangosfeydd, gweithgarwch cymunedol, teithio gwaith, cyfyngu ar eu horiau agor a lleihau'r gweithlu; cyflwyno cyfundrefnau newydd o redeg eu busnes a chynlluniau 'talu'n ôl eich ewyllys' a chyflwyno prisiau

newydd a ffyrdd newydd o dalu;  a cheisio buddsoddiad hirdymor i wella effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu

**Rydym yn cynnal arolwg cynhwysfawr o effaith cynyddu prisiau ar unigolion a sefydliadau ac ariannwn y gwaith o'n cymorth grant ac arian y Loteri. Rhoddwn wybod am y canlyniadau i ymchwiliad llawn y Pwyllgor.**

Bydd yn anodd rheoli ein Hadolygiad Buddsoddi cyfredol gyda phenderfyniadau ar gytundebau ariannu amlflwyddyn newydd o 1 Ebrill 2024 ymlaen a fydd yn anodd hefyd i'r sefydliadau sy'n ymgeisio. Bydd llawer o sefydliadau a ddymunai ymgeisio yn wynebu her fawr i'w bodolaeth yn y cyfamser.

Nid yw ein rhaglenni grant yn ddigon mawr i ddiwallu'r angen. Bydd ein cyllidebau gweithredol a chostau adnoddau wedi'u capio yn wynebu her ddifrifol wrth i bris gwasanaethau a nwyddau traul gynyddu yn enwedig wrth geisio recriwtio, talu, a chadw staff.

***Pa ymyriadau hoffech eu gweld gan Lywodraeth Cymru a Phrydain?***
Mae rhai o'n lleoliadau celfyddydol eisoes yn ystyried a allant ymateb i'r effaith ar unigolion a chymunedau drwy fynd yn "ganolfan gynnes". Ond bydd llawer o'n sefydliadau'n gorfod dod o hyd i ragor o arian i ddarparu cynnig felly gan gynnig bwyd a diod yn rhatach.

Mae'r argyfwng sy'n wynebu'r sector mor fawr ag ar unrhyw adeg dros y ddwy flynedd diwethaf. Roedd y Gronfa Adfer Ddiwylliannol yn achubiaeth i'r sector. Nawr mae angen arian ychwanegol i adeiladu ar y buddsoddiad yna a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y celfyddydau. Bydd angen cefnogaeth a diogelwch incwm sylfaenol ar artistiaid a gweithwyr llawrydd i oroesi'r argyfwng.

Nid yw'n glir eto pa ymyriadau economaidd ac ariannol y bydd gan Lywodraeth Prydain i'w cynnig i leddfu ar yr argyfwng ynni i fusnesau a'r sector celfyddydol. Ond ymddengys eu bod yn annhebygol o gynnig budd i gynaliadwyedd hirdymor llawer o'n sefydliadau celfyddydol.

***I ba raddau mae'r effeithiau a nodwch yn effeithio'n wahanol ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd â statws cymdeithasol-economaidd is?***
Caiff colli prosiectau celfyddydol a lleoliadau ledled Cymru effaith waeth ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd â statws cymdeithasol-economaidd is. Y cymunedau yma a gaiff flaenoriaeth gennym ni a'n sefydliadau drwy raglenni a phrosiectau hygyrch, targedol. A'r cymunedau yma gaiff eu taro galetaf gan yr argyfwng costau byw.

Yn ddiweddar, bu cynnydd yng nghyflogaeth pobl â nodweddion gwarchodedig ledled y sefydliadau yn ein Portffolio Celfyddydol. Rhoddwn 30% o'n grantiau o'r  arian a gawn gan y Loteri Genedlaethol i brosiectau sy'n targedu pobl F/fyddar ac anabl a 30% i rai sy'n targedu cyfranogwyr amrywiol yn ddiwylliannol ac ethnig.

Mae tystiolaeth gadarn y bydd effaith amlwg ar iechyd a lles unigolion a chymunedau ledled Cymru os bydd cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau yn lleihau neu fynd yn anhygyrch neu'n mynd yn rhy gostus.